**Mae awtistiaeth ar fy mrawd**

Os ydych chi eisiau gwybod rhywbeth am chwaraeon, bydd yn medru dweud enwau pawb sydd yn y tîm. Bydd hyd yn oed yn medru dweud y dyddiad y gwnaethon nhw ymuno os holwch chi.

Os byddwch yn gofyn iddo am wyliau, bydd yn dweud wrthych mai ym Mhortiwgal yr oeddem ni yn 2011, ac ar y dydd Iau, aethom i weld Barcelona yn chwarae ac fe enillon nhw 3-0. Y tro diwethaf y cafodd ef gorgimychiaid i'w fwyta oedd ar ddydd Gwener 4 blynedd yn ôl, ond nid oedd yn hoffi'r ffordd yr oedden nhw'n teimlo. Mae e'n hollol unigryw ac mae'n medru gwneud y pethau mwyaf anhygoel.

Mae e'n garedig. Mae e'n ddoniol. Mae e'n fo. Nid yw ei ffyrdd ef fel fy rhai i ac nid fel rhai llawer o bobl eraill, a chaiff ei ffyrdd unigryw ei ystyried yn 'rhyfedd' yn aml.
Nid oedd yn hawdd iddo gael ei dderbyn. Rwy'n cofio'r athrawon yn dweud, nid yw'n ymddwyn cystal â thi, neu, nid yw'n debyg i ti. Rwy'n dal i gofio'r olwg ar wynebau fy ffrindiau pan glywsant y synau rhyfedd yr oedd yn ei wneud am y tro cyntaf.

I wneud yn iawn am hyn, penderfynais y dylwn i fod y gorau ym mhopeth. Bydden i'n breuddwydio am fynd i'r brifysgol a gwneud fy rhieni'n falch ohonof. Yn fy meddwl i, fi oedd yr unig 'dystiolaeth' fod fy rhieni'n rhieni da fel nad oedd pobl eraill yn eu beirniadu. Ond, gadewch i mi ddweud wrthych, roeddwn i'n gwbl anghywir…

Mae bod y person hwnnw sy'n wynebu anabledd yn golygu bod pob diwrnod yn wahanol. Mae un dydd yn gwbl ddi-drefn, a'r nesaf yn wobrwyol. Rwy'n cofio ffrind yn dweud fy mod wedi tyfu i fyny'n rhy gyflym o lawer, ond roedd y reddf famol gen i o'r cychwyn. Roeddwn i'n teimlo bod angen i fi fod yno iddo yn yr ysgol. Pam nad yw e' wedi cael cinio? Pam ei fod yn cerdded o gwmpas ar ei ben i hun?

Weithiau rwy'n ei garu ac weithiau rwy'n ei gasáu, ac mae hynny'n iawn.

Rwyf wastad wedi bod yn berson hyderus; fe fedrwn i siarad fel melin bupur. Felly, roedd ceisio deall a derbyn nad oedd fy mrawd eisiau bod gyda ffrindiau neu fynd allan i unrhyw le yn anodd. Ar brydiau, roeddwn i'n teimlo'n ddryslyd iawn - sut fedrai rywun fod â chymaint o ofn siarad â phobl eraill? (Roeddwn i wrth fy modd yn gwneud hynny). Doeddwn i ddim yn deall pam nad oedd ef eisiau ffôn - roedd fy un i yn rhan ohonof i. Byddwn i'n meddwl weithiau, ac yn dal i feddwl ar ei ddyddiau gwael, a yw'n casáu ei chwaer fawr, ond awr yn ddiweddarach, mae eisiau noson yn gwylio ffilmiau gyda mi. Doeddwn i ddim yn deall pam ei fod yn edrych yn normal, ond ddim yn ymddwyn fel yr hyn a ystyriwyd yn 'rhywun normal'.

Ond nid wyf byth yn amau a fydd e'n iawn, oherwydd rwy'n gwybod y bydd. Mae wedi wynebu heriau na fydda i na chithau fyth yn eu hwynebu mae'n siŵr. Mae e'n fendith ac mae wedi fy ngwneud i'n fwy ymwybodol o'r holl wahaniaethau o'm hamgylch ni. Oherwydd ef, rwy'n fwy amyneddgar, caredig a chymwynasgar.

Nid yw beirniadu rhywun yn diffinio pwy ydyn nhw, mae'n diffinio pwy ydych chi; mae derbyn bod pob unigolyn yn wahanol, a rhai'n fwy gwahanol nag eraill, yn eich gwneud chi'n berson gwell. Nid oes unrhyw un uwchlaw i chi ar unrhyw adeg. Mae anableddau'n ymddatod teimladau ac emosiynau, d'oes gennych chi'r un syniad pryd fydd y twnnel yn dod i ben, ond rydych chi'n cerdded gyda'ch teulu ac yn teithio'r holl ffordd. Fy rhieni i yw'r bobl fwyaf ysbrydoledig, gofalgar a chariadus, a gyda'u phenderfyniad a'u dyfalbarhad nhw, mae Kyle a finnau wedi tyfu i fod yn oedolion ifanc, cryf sydd â pharch, cariad a theyrngarwch.

Kyle, ti wyt ti. Paid byth â newid.

I unrhyw frodyr neu chwiorydd allan fan'na, rydych chi'n ddewr ac mae eich mam a'ch tad yn eich caru chi'r un faint, ond bod eich brawd neu'ch chwaer angen ychydig bach mwy o sylw. Daliwch ati i fod yn feiddgar ac yn ddewr.